**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Llywodraeth Cymru

25 Hydref 2023

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Jeremy,

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cynnal gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn ystod y gwanwyn.

### Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i’r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 19 Rhagfyr 2023.

### Tystiolaeth lafar

Byddai’r Aelodau’n ddiolchgar hefyd pe gallech fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Ionawr 2023 rhwng 09.30 a 11.00.

### Dull gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull gweithredu ar y pedair egwyddor ar gyfer gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau’r gyllideb. Rydym hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, a'r Prif Weinidog, o ystyried perthnasedd eu gwaith i'n cylch gwaith.

Yn unol â’r gweithdrefnau cyllidebol newydd, bydd y Pwyllgor yn ystyried a ddylid adrodd ynghylch ein canfyddiadau i’r Senedd.

Yn gywir

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad 1: Cais am wybodaeth ysgrifenedig cyn craffu ar y gyllideb ddrafft

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

## Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r gyllideb ddrafft 2024-25 (fel sy'n berthnasol i'r Gymraeg) fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Gwariant yn y Gyllideb.
- Alldro terfynol ar gyfer 2022-23 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2023-2024.

## Gwybodaeth arall

- Gwybodaeth yn ymwneud â sut mae cyflawni portffolio'r Gymraeg a'i ganlyniadau cysylltiedig, a sut y caiff hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.
- Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn benodol, y dyraniadau ar gyfer cyflawni'r 'cerrig milltir' fel y'u nodir yn y *Rhaglen Waith 2021-2026*.

## Meysydd penodol

### Diweddariadau ar ddyraniadau yn y gyllideb ar gyfer 2023-24

- Gwybodaeth am y dyraniad o £3 miliwn yn 2023-24 ac £1.5 miliwn yn 2022-23 i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach, ac i sicrhau bod dysgu Cymraeg ar gael am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed a staff addysgu.
- Diweddariad ar ddosbarthu'r £2.2 miliwn (y flwyddyn) a ddyrannwyd i ehangu'r ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg ledled Cymru a sut y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid hwn ledled Cymru.
- Manylion am y nifer sy'n manteisio ar gymhelliant Iaith Athrawon Yfory, ac unrhyw wybodaeth y gellir ei rhannu am werthuso'r effaith.
- Diweddariad ar ddyraniadau cyllideb o rannau eraill o bortffolio'r Gweinidog, er enghraifft y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon a sut y mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y sector addysg.

## Comisiynydd y Gymraeg

- Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â dyraniad y gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2024-25.

## Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

- Cynnydd manwl ar ehangu capasiti mewn ysgolion Cymraeg, dosbarthiad Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.